WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

# Adolygiad dilynol Iechyd yr Amgylchedd – **Cyngor Dinas Casnewydd**

Blwyddyn archwilio: 2018-19

Dyddiad cyhoeddi: Tachwedd 2019

Cyfeirnod y ddogfen: 1591A2019-20

Paratowyd y ddogfen hon at ddefnydd mewnol Cyngor Dinas Casnewydd fel rhan o'r gwaith a gyflawnwyd yn unol ag adran 18 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 ac adran 17 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 (Deddf 2004). Gallai hefyd lywio ein gwaith archwilio dan adran 15 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Nid yw'r Archwilydd Cyffredinol, na staff Swyddfa Archwilio Cymru, yn cymryd unrhyw gyfrifoldeb o ran unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog na chyflogai arall yn rhinwedd eu swyddi unigol, nac o ran unrhyw drydydd parti.

Os ceir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000.
Mae Cod adran 45 yn nodi sut y disgwylir i awdurdodau cyhoeddus ymddwyn wrth ymdrin â cheisiadau, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. O ran y ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg ac yn Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. This document is also available in English. Dileer os nad yw'n berthnasol.

Cyflawnwyd y gwaith gan Ginette Beal a Lidia Vorontsova o Grant Thornton LLP dan gyfarwyddyd Non Jenkins a Sara-Jane Byrne.

# Cynnwys

Cymysg fu'r cynnydd o ran rhoi sylw i argymhellion hyd yn hyn, er, mae cynllun y gwasanaeth iechyd yr amgylchedd yn cynnwys camau gweithredu sy'n anelu at roi sylw i'r argymhellion sy'n weddill.

Mae'r Cyngor wedi peidio â darparu'r holl wasanaethau iechyd yr amgylchedd y mae'n eu darparu yn ôl ei ddisgresiwn, ar wahân i'r rheiny sy'n cynhyrchu incwm. Mae'r Cyngor hefyd wedi lleihau rhai gwasanaethau statudol.


Adroddiad cryno 4

Adroddiad manwl 10


Cymysg fu'r cynnydd o ran rhoi sylw i argymhellion hyd yn hyn, er, mae cynllun y gwasanaeth iechyd yr amgylchedd yn cynnwys camau gweithredu sy'n anelu at roi sylw i'r argymhellion sy'n weddill. Mae'r Cyngor wedi peidio â darparu'r holl wasanaethau iechyd yr amgylchedd y mae'n eu darparu yn ôl ei ddisgresiwn, ar wahân i'r rheiny sy'n cynhyrchu incwm. Mae'r Cyngor hefyd wedi lleihau rhai gwasanaethau statudol.


Yn 2017, ad-drefnodd y Cyngor ei swyddogaeth Graffu, fodd bynnag ers hynny cyfyngedig yw'r dystiolaeth a welsom o effaith ar wasanaethau iechyd yr amgylchedd 10

Cynhelir Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb wrth newid gwasanaethau; serch hynny, cyfyngedig oedd y dystiolaeth a welsom ar gyfer ymgysylltiad rhagweithiol rhwng y gwasanaeth iechyd yr amgylchedd a thrigolion, wrth dorri cyllidebau neu newid gwasanaethau. 11

Dangosodd swyddogion ddealltwriaeth drylwyr o swyddogaethau statudol a dewisol yn eu cylch gwaith. Gwelsom dystiolaeth fod dyletswyddau statudol yn cael ystyriaeth briodol wrth ddod i benderfyniadau. Rheolir safonau perfformiad derbyniol trwy fframwaith perfformiad mewnol. 11

Hyd yn hyn, mae ffocws newidiadau i'r gwasanaethau a ddarperir wedi bod ar gynnal gweithgareddau statudol craidd; lle bo gweithgareddau statudol wedi lleihau, mae hyn yn seiliedig ar asesiad risg. Mae'r Cyngor wedi archwilio nifer o ffyrdd o wella effeithlonrwydd a gwerth am arian, er enghraifft trefniadau cydweithio anffurfiol gydag Awdurdodau eraill. 12

Mae amcanion y gwasanaeth iechyd yr amgylchedd yn cyd-fynd ag amcanion corfforaethol a Llesiant. Goleuwyd penderfyniadau allweddol gan ddadansoddiad o'r gost, y buddion a'r effeithiau. Cyfyngedig yw'r defnydd o wybodaeth am fusnes ar hyn o bryd. 13

# Adroddiad cryno

## Crynodeb

### Beth y gwnaethom ei adolygu a pham?

1 Yn rhan o'i gyfres 'cyflawni â llai' o Astudiaethau Gwella Llywodraeth Leol, cyhoeddodd yr Archwilydd Cyffredinol ei adroddiad - Cyflawni â llai - yr effaith ar wasanaethau iechyd yr amgylchedd a dinasyddion, ym mis Hydref 2014.

2 Yn yr adroddiad hwn, amlygodd yr Archwilydd Cyffredinol ddeddfwriaeth ddiweddar a deddfwriaeth a oedd ar droed, a phryderon Cynghorau na fyddent yn gallu cyflawni'r ymrwymiadau ynddynt. Mae llawer o'r cynigion deddfwriaethol y cyfeirir atynt yn yr adroddiad a gyhoeddwyd gan yr Archwilydd Cyffredinol yn 2014, bellach wedi cael eu gweithredu, gan gynnwys: Deddf Tai (Cymru) 2014 a Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016. Pasiwyd Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) yn 2017 hefyd.

3 Yn ogystal, cyhoeddodd yr Archwilydd Cyffredinol adroddiadau lleol ar gyfer pob Cyngor yn rhan o astudiaeth 2014.

4 Mewn llythyr at Brif Weithredwyr awdurdodau lleol ar 11 Ionawr 2018, cyflwynodd yr Archwilydd Cyffredinol ei fwriad i ymgymryd â gwaith thematig a oedd yn cyd-fynd yn agosach â'i raglen o Astudiaethau Llywodraeth Leol. Diben alinio gwaith thematig yn agosach at y rhaglen Astudiaethau Llywodraeth Leol, yw gwneud y defnydd mwyaf effeithiol o adnoddau archwilio wrth gyflawni dyletswyddau'r Archwilydd Cyffredinol, a sicrhau ar yr un pryd fod materion a themâu, ynghyd â'r hyn a ddysgwyd yn adroddiadau'r Astudiaethau Llywodraeth Leol, yn cael eu 'dilyn i fyny' a'u harchwilio gyda chynghorau yn lleol yn y blynyddoedd dilynol.

5 Yn yr adolygiad hwn, cafwyd asesiad i weld a fu unrhyw newidiadau i'r gyllideb a'r staff yng ngwasanaethau iechyd yr amgylchedd y Cyngor, ac i ba raddau y mae wedi rhoi sylw i argymhellion ein hadroddiad cenedlaethol a gyhoeddwyd yn 2014. At ddiben yr adolygiad hwn, ein ffocws oedd cynnydd y Cyngor wrth roi sylw i argymhellion 2, 3, 4 a 5 yn yr adroddiad cenedlaethol.

6 Yn yr adroddiad, cyflwynwyd chwe argymhelliad ac maent wedi eu hamlinellu yn Arddangosyn 1 isod:

Arddangosyn 1: argymhellion a wnaed yn adroddiad cenedlaethol 2014, Cyflawni â llai - yr effaith ar wasanaethau iechyd yr amgylchedd a dinasyddion

| Argymhelliad | Partneriaid Cyfrifol |
|---|---|
| A1 Diwygio'r safonau arfer gorau er mwyn:<br>• cysoni gwaith ym maes iechyd yr amgylchedd â blaenoriaethau strategol cenedlaethol;<br>• nodi cyfraniad ehangach iechyd yr amgylchedd at gyflawni | Cynghorau, Sefydliad Siartredig Iechyd yr Amgylchedd Cymru |

| Argymhelliad | | Partneriaid Cyfrifol |
|---|---|---|
| | blaenoriaethau strategol Llywodraeth Cymru; a<br>• nodi buddiannau ac effaith gwasanaethau iechyd yr amgylchedd o ran diogelu dinasyddion. | |
| A2 | Rhoi'r sgiliau a'r cymorth sydd eu hangen ar gadeiryddion ac aelodau pwyllgorau craffu i graffu ar berfformiad gwasanaethau, cynlluniau arbed ac effaith gostyngiadau cyllidebol, a'u herio'n effeithiol. | Cynghorau, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru |
| A3 | Ymgysylltu'n well â thrigolion lleol ynghylch cynlluniau i dorri cyllidebau a newid gwasanaethau drwy:<br>• ymgynghori â thrigolion ar newidiadau arfaethedig mewn gwasanaethau a<br>• defnyddio'r canfyddiadau i lywio penderfyniadau;<br>• amlinellu pa wasanaethau a gaiff eu torri a sut y bydd y toriadau hyn yn effeithio ar drigolion; a<br>• nodi cynlluniau i gynyddu taliadau neu newid safonau gwasanaeth. | Cynghorau, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru |
| A4 | Gwella effeithlonrwydd a gwerth am arian drwy:<br>• nodi dyletswyddau statudol ac anstatudol gwasanaethau iechyd yr amgylchedd cynghorau.<br>• cytuno ar flaenoriaethau iechyd yr amgylchedd ar gyfer y dyfodol a rôl cynghorau wrth gyflawni'r rhain.<br>• pennu 'safon dderbyniol o berfformiad' ar gyfer gwasanaethau iechyd yr amgylchedd (uchaf ac isaf) a rhoi cyhoeddusrwydd iddynt ymhlith dinasyddion.<br>• Gwella effeithlonrwydd a chynnal perfformiad ar y lefel y cytunwyd arni drwy wneud y canlynol: | Cynghorau, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, Llywodraeth Cymru |

| Argymhelliad | Partneriaid Cyfrifol |
| --- | --- |
| – cydweithio a/neu integreiddio ag eraill er mwyn lleihau costau a/neu wella ansawdd;<br>– gosod gwasanaethau ar gontractau allanol lle y gellir eu darparu mewn ffordd fwy cost-effeithiol yn unol â'r safonau y cytunwyd arnynt;<br>– cyflwyno a/neu gynyddu taliadau a chanolbwyntio ar weithgarwch sy'n cynhyrchu incwm;<br>– defnyddio grantiau mewn ffordd strategol er mwyn sicrhau'r effaith a'r elw mwyaf; a<br>– lleihau gweithgareddau er mwyn canolbwyntio ar flaenoriaethau statudol a strategol craidd. | |
| A5 Gwella gwaith cynllunio strategol drwy:<br>• nodi, casglu a dadansoddi data ariannol, data ar berfformiad a data ar alw/angen mewn perthynas â gwasanaethau iechyd yr amgylchedd;<br>• dadansoddi data a gasglwyd er mwyn llywio a deall y gydberthynas rhwng 'cost: budd: effaith' a defnyddio'r wybodaeth hon fel sail i benderfyniadau ar wasanaethau iechyd yr amgylchedd cynghorau yn y dyfodol; a<br>• chytuno sut y gellir defnyddio gwybodaeth ddigidol i gynllunio a datblygu gwasanaethau iechyd yr amgylchedd yn y dyfodol. | Cynghorau |

| Argymhelliad | | Partneriaid Cyfrifol |
|---|---|---|
| A6 | Nodi'n glir yr hyn a ddisgwylir gan wasanaethau iechyd yr amgylchedd cynghorau o dan ddeddfwriaeth tai ac iechyd newydd a chytuno sut y caiff y dyletswyddau newydd hyn eu cyflawni. | Llywodraeth Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru |

7 Cynhaliwyd yr adolygiad hwn yn ystod y cyfnod o fis Awst 2019 i fis Hydref 2019.

## Ein canfyddiadau

8 Nod ein hadolygiad oedd ateb y cwestiwn: **A ydi'r Cyngor wedi gweithredu ar yr argymhellion yn adroddiad Iechyd yr Amgylchedd - Cyflawni â Llai yr Archwilydd Cyffredinol, a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2014?**


9 Ar y cyfan, roedd ein canfyddiadau fel a ganlyn: **Cymysg fu'r cynnydd o ran rhoi sylw i argymhellion hyd yn hyn, er, mae cynllun y gwasanaeth iechyd yr amgylchedd yn cynnwys camau gweithredu sy'n anelu at roi sylw i'r argymhellion sy'n weddill. Mae'r Cyngor wedi peidio â darparu'r holl wasanaethau iechyd yr amgylchedd y mae'n eu darparu yn ôl ei ddisgresiwn, ar wahân i'r rheiny sy'n cynhyrchu incwm. Mae'r Cyngor hefyd wedi lleihau rhai gwasanaethau statudol.** Daethom i'r casgliad hwn oherwydd:

- Yn 2017, ad-drefnodd y Cyngor ei swyddogaeth Graffu, fodd bynnag ers hynny cyfyngedig yw'r dystiolaeth a welsom o effaith ar wasanaethau iechyd yr amgylchedd.
- Cynhelir Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb wrth newid gwasanaethau; serch hynny, cyfyngedig oedd y dystiolaeth a welsom ar gyfer ymgysylltiad rhagweithiol rhwng y gwasanaeth iechyd yr amgylchedd a thrigolion, wrth dorri cyllidebau neu newid gwasanaethau.
- Dangosodd swyddogion ddealltwriaeth drylwyr o swyddogaethau statudol a dewisol yn eu cylch gwaith. Gwelsom dystiolaeth fod dyletswyddau statudol yn cael ystyriaeth briodol yn y broses benderfynu. Rheolir safonau perfformiad derbyniol trwy fframwaith perfformiad mewnol.
- Hyd yn hyn, mae ffocws newidiadau i'r gwasanaethau a ddarperir wedi bod ar gynnal gweithgareddau statudol craidd; lle bo gweithgareddau statudol wedi lleihau, mae hyn yn seiliedig ar asesiad risg. Mae'r Cyngor wedi archwilio nifer o ffyrdd o wella effeithlonrwydd a gwerth am arian, er enghraifft trefniadau cydweithio anffurfiol gydag Awdurdodau eraill.
- Mae amcanion y gwasanaeth iechyd yr amgylchedd yn cyd-fynd ag amcanion corfforaethol a Llesiant . Goleuwyd penderfyniadau allweddol gan ddadansoddiad o'r gost, y buddion a'r effeithiau. Cyfyngedig yw'r defnydd o wybodaeth am fusnes ar hyn o bryd.

## Cefndir


- Mae cyllidebau iechyd yr amgylchedd wedi lleihau o £1.2m yn 2012-13 i £1.1m yn 2018-19 (Arddangosyn 1), sy'n lleihad o tua 6.4%.
- Gwelwyd mwy o ostyngiad yn yr alldro refeniw gwirioneddol, o £1.3m yn 2012-13 i £0.9m yn 2018-19, sy'n ostyngiad o 28.6%. Roedd gan y Cyngor danwariant o tua £0.2m yn erbyn ei gyllideb iechyd yr amgylchedd yn 2018-19.
- Mae niferoedd staff wedi lleihau o 53.07 Cyfwerth ag Amser Llawn i 44.45 Cyfwerth ag Amser Llawn, sef gostyngiad o 8.62 swydd Gyfwerth ag Amser Llawn ar y cyfan, a lleihad o 3.6 swydd Gyfwerth ag Amser Llawn mewn staff ar radd technegydd a lleihad o 4.0 swydd Gyfwerth ag Amser Llawn ar radd gweinyddwr. (Arddangosyn 2)
- Mae'r gwasanaeth yn disgwyl y bydd yn gorfod lleihau ei staff ymhellach dros y blynyddoedd nesaf, er mwyn sicrhau'r arbedion gofynnol.

Arddangosyn 2: cost net gwasanaethau iechyd yr amgylchedd: y gyllideb refeniw o'i chymharu â'r alldro, 2012-13 i 2018-19




Sylwer: Ni allai'r Cyngor ddarparu'r ffigurau o ran y gyllideb a'r alldro ar gyfer gwasanaethau Iechyd yr Amgylchedd yn y blynyddoedd ariannol rhwng 2012-13 a 2018-19.

Arddangosyn 3: niferoedd staff (cyfwerth ag amser llawn) yn 2014 o gymharu â 2019.




# Cynigion ar gyfer gwelliant

## Arddangosyn 1: cynigion ar gyfer gwelliant

Yn y tabl isod, cyflwynir y cynigion ar gyfer gwelliant yr ydym wedi eu nodi yn dilyn yr adolygiad hwn.

| Cynigion ar gyfer gwelliant | |
|---|---|
| C1 | Dylai'r Cyngor sicrhau bod Aelodau yn goruchwylio gwasanaethau iechyd yr amgylchedd yn ddigonol trwy ei swyddogaeth Graffu a bod Aelodau'n ymgysylltu â'r gwaith o lywio'r gwasanaeth wrth i adnoddau barhau i leihau. |
| C2 | Dylai'r Cyngor ymgynghori â defnyddwyr gwasanaethau mewn ffordd ragweithiol a strwythuredig, ar unrhyw benderfyniadau neu newidiadau i raddfa gwasanaethau iechyd yr amgylchedd yn y dyfodol. |
| C3 | Dylai'r Cyngor barhau i archwilio'r holl opsiynau er mwyn sicrhau gwydnwch ariannol y gwasanaeth trwy arloesi, trawsnewid, rhannu neu dargedu'r defnydd o adnoddau yn well.<br>Dylai'r Cyngor ddefnyddio allbynnau ei ddadansoddiad o'i swyddogaethau statudol/dewisol er mwyn sicrhau bod pwerau a dyletswyddau statudol yn cael eu blaenoriaethu wrth ad-drefnu unrhyw wasanaethau. |

# Adroddiad manwl

## Cymysg fu'r cynnydd o ran rhoi sylw i argymhellion hyd yn hyn, er, mae cynllun y gwasanaeth iechyd yr amgylchedd yn cynnwys camau gweithredu sy'n anelu at roi sylw i'r argymhellion sy'n weddill. Mae'r Cyngor wedi peidio â darparu'r holl wasanaethau iechyd yr amgylchedd y mae'n eu darparu yn ôl ei ddisgresiwn, ar wahân i'r rheiny sy'n cynhyrchu incwm. Mae'r Cyngor hefyd wedi lleihau rhai gwasanaethau statudol.

### Yn 2017, ad-drefnodd y Cyngor ei swyddogaeth Graffu, fodd bynnag ers hynny cyfyngedig yw'r dystiolaeth a welsom o effaith ar wasanaethau iechyd yr amgylchedd.

10 Wrth ddod i'r casgliad hwn, dyma oedd ein canfyddiadau:

- Ad-drefnodd y Cyngor ei swyddogaeth Graffu yn 2017. Mae ffocws trefniadau Craffu newydd ar adolygu a herio perfformiad.
- Ers yr ailstrwythuro, mae Aelodau wedi cael hyfforddiant ar sgiliau craffu cyffredinol, er enghraifft craffu ar gyllidebau, cadeirio a fframwaith perfformiad.
- Hyd yn hyn, ni ddarparwyd unrhyw hyfforddiant penodol ar Iechyd yr Amgylchedd i Aelodau, gan mai'r ffocws oedd gwella sgiliau Craffu cyffredinol.
- Bwriad y Cyngor yw llunio Rhaglen Ddatblygiad i Aelodau sy'n cyd-fynd â phroffil rôl pob Aelod, a bydd yr hyfforddiant yn cael ei bennu ar sail rôl pob Aelod.
- Mae'r Cyngor yn cydnabod bod arno angen gwneud gwaith pellach yn y maes hwn, er mwyn uchafu effaith Craffu ar swyddogaethau iechyd yr amgylchedd.

## Cynhelir Asesiadau o’r Effaith ar Gydraddoldeb wrth newid gwasanaethau; serch hynny, cyfyngedig oedd y dystiolaeth a welsom ar gyfer ymgysylltiad rhagweithiol rhwng y gwasanaeth iechyd yr amgylchedd a thrigolion, wrth dorri cyllidebau neu newid gwasanaethau.

11 Wrth ddod i'r casgliad hwn, dyma oedd ein canfyddiadau:

- Dywedodd y Cyngor wrthym fod toriadau sy'n arwain at newidiadau yn y modd y darperir gwasanaethau ar y llinell flaen, yn destun ymgynghoriad cyhoeddus yn rhan o broses y Cynllun Refeniw Tymor Canolig.
- Serch hynny, nodwyd nad oedd adborth defnyddwyr gwasanaethau mewn perthynas â thoriadau i'r gyllideb iechyd yr amgylchedd yn 2016-17 wedi ei gynnwys yn adroddiad perthynol y Cynllun Refeniw Tymor Canolig.
- Effeithiodd y toriadau i'r gyllideb yn 2016-17 ar ddarpariaeth gwasanaethau llinell flaen, er enghraifft peidio ag ail-ymweld â safleoedd i weld a yw eiddo preswyl sy'n cael ei rentu yn cael ei ddefnyddio unwaith eto yn dilyn camau gorfodi.
- Mae unrhyw doriadau i'r gyllideb ac unrhyw newidiadau i wasanaethau yn destun asesiad effaith.
- Yn yr un modd, ni welsom dystiolaeth fod adborth gan drigolion yn cael ei ddefnyddio i oleuo penderfyniadau mewn perthynas â chyflwyno taliadau.

## Dangosodd swyddogion ddealltwriaeth drylwyr o swyddogaethau statudol a dewisol yn eu cylch gwaith. Gwelsom dystiolaeth fod dyletswyddau statudol yn cael ystyriaeth briodol yn y broses benderfynu. Rheolir safonau perfformiad derbyniol trwy fframwaith perfformiad mewnol.

12 Wrth ddod i'r casgliad hwn, dyma oedd ein canfyddiadau:

- Ni ddogfennir gwasanaethau iechyd yr amgylchedd statudol ac anstatudol yn ffurfiol. Serch hynny, mae gan swyddogion ac aelodau ddealltwriaeth glir o rwymedigaethau statudol ac anstatudol y gwasanaeth.
- Mae'r holl benderfyniadau allweddol yn cyfeirio at eu cymhwysedd at swyddogaeth statudol neu ddewisol a rhwymedigaethau'r Cyngor o ran darparu agweddau penodol ar y swyddogaeth honno.
- Mae’r gwaith o adolygu cyfrifoldebau statudol ac anstatudol y gwasanaeth, er mwyn goleuo gostyngiadau i'r gyllideb yn y dyfodol, wedi ei gynnwys yng nghynllun y gwasanaeth, a dylai fod wedi ei gwblhau erbyn 2020.
- Dogfennir blaenoriaethau allweddol yng Nghynllun y Gwasanaeth Cyfraith a Rheoleiddio 2018-22.

- Nodwyd safonau derbyniol yn fewnol trwy gyfres o Ddangosyddion Perfformiad Allweddol, ond nid ydynt wedi cael eu cyhoeddi.

## Hyd yn hyn, mae ffocws newidiadau i'r gwasanaethau a ddarperir wedi bod ar gynnal gweithgareddau statudol craidd; lle bo gweithgareddau statudol wedi lleihau, mae hyn yn seiliedig ar asesiad risg. Mae'r Cyngor wedi archwilio nifer o ffyrdd o wella effeithlonrwydd a gwerth am arian, er enghraifft trefniadau cydweithio anffurfiol gydag Awdurdodau eraill.

13 Wrth ddod i'r casgliad hwn, dyma oedd ein canfyddiadau:

- Mae'r Cyngor yn rhan o grwpiau iechyd yr amgylchedd lleol a chenedlaethol ac mae ganddo drefniadau rhannu staff anffurfiol gydag Awdurdodau eraill. Nid oes gan y Cyngor drefniadau ffurfiol ar gyfer rhannu gwasanaethau iechyd yr amgylchedd.
- Ar hyn o bryd, nid yw'r Cyngor yn gosod unrhyw rai o'i swyddogaethau iechyd yr amgylchedd ar gontract allanol.
- I raddau helaeth, mae'r gwasanaeth wedi cynnal ei berfformiad yn erbyn Dangosyddion Perfformiad Allweddol iechyd yr amgylchedd.
- Mewn rhai meysydd, derbyniwyd dirywiad mewn perfformiad fel canlyniad i leihau gwasanaethau.
- Cyflwynodd y Cyngor daliadau ar gyfer ei wasanaeth cynghori ar fusnes ac mae wedi cynyddu dirwyon gorfodi am dipio anghyfreithlon a gollwng sbwriel.
- Defnyddiwyd grant gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd yn 2018-19 er mwyn ariannu adnoddau ychwanegol i gynyddu nifer yr arolygiadau ar Safleoedd Bwyd Risg Uchel.
- Er 2014, mae'r Cyngor wedi peidio â darparu bron pob gwasanaeth Iechyd yr Amgylchedd yr oedd yn eu darparu yn ôl ei ddisgresiwn, ar wahân i'r rheiny sy'n cynhyrchu incwm.
- Gwelwyd lleihad hefyd yn rhai o'r gwasanaethau statudol a ddarperir (e.e. blaenoriaethu archwiliadau safleoedd Categori A/B ac asesu'r risgiau ar gyfer safleoedd Categori C er mwyn defnyddio adnoddau yn fwy effeithlon). Mae swyddogion y Cyngor o'r farn fod y Cyngor yn dal i fodloni ei rwymedigaethau statudol.

## Mae amcanion y gwasanaeth iechyd yr amgylchedd yn cyd-fynd ag amcanion corfforaethol a Llesiant . Goleuwyd penderfyniadau allweddol gan ddadansoddiad o'r gost, y buddion a'r effeithiau. Cyfyngedig yw'r defnydd o wybodaeth am fusnes ar hyn o bryd.

14 Wrth ddod i'r casgliad hwn, dyma oedd ein canfyddiadau:

- Mae'r gwasanaeth yn adolygu ei berfformiad ariannol a gweithredol yn erbyn cyflawniad amcanion strategol, ddwywaith y flwyddyn.
- Caiff costau, buddion ac effeithiau eu hystyried yn y broses benderfynu mewn perthynas â lleihad mewn nawdd neu dyfiant.
- Cyfyngedig yw'r defnydd o wybodaeth am fusnes i oleuo darpariaeth gwasanaethau, ar hyn o bryd.
- Yn ddiweddar, mae'r Cyngor wedi buddsoddi mewn Hyb Gwybodaeth, a gynlluniwyd er mwyn galluogi timau i ddefnyddio dadansoddiad o ddata am weithgarwch wrth ddod i benderfyniadau. Mae'r gwaith hwn yn ei grud o hyd, ac nid yw'n cael effaith weladwy ar wasanaethau iechyd yr amgylchedd eto.

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales
Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru